# YR ATODLENNI

## ATODLEN 3

Rheoliad 4

Gwybodaeth a Dogfennau sydd i Gael eu Cyflenwi ar Gais i Gofrestru fel Rheolwr Practis Deintyddol Preifat

## RHAN 1

### Gwybodaeth

**1.** Enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad presennol, rhif ffôn a chyfeiriad post electronig (os oes un) y ceisydd.

**2.** Manylion am gymwysterau proffesiynol neu dechnegol y ceisydd, a'i brofiad o reoli practis deintyddol preifat, i'r graddau y mae'r cymwysterau hynny a'r profiad hwnnw yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau i bersonau y mae gwasanaethau i gael eu darparu iddynt yn y practis deintyddol preifat.

**3.** Manylion am hyfforddiant proffesiynol y ceisydd sy'n berthnasol i gynnal neu reoli practis deintyddol preifat.

**4.** Manylion am hanes cyflogaeth y ceisydd, gan gynnwys enw a chyfeiriad ei gyflogwr presennol ac enw a chyfeiriad unrhyw gyflogwyr blaenorol.

**5.** Manylion am unrhyw fusnes y mae'r ceisydd yn ei gynnal neu'n ei reoli neu wedi ei gynnal neu ei reoli.

**6.**—(1) Enw a chyfeiriad dau ganolwr—

(a) nad ydynt yn berthnasau i'r ceisydd;

(b) y mae'r ddau ohonynt yn gallu darparu geirda o ran cymhwysedd y ceisydd i reoli practis deintyddol preifat o'r un disgrifiad â'r practis deintyddol preifat; ac

(c) y mae un ohonynt wedi cyflogi'r ceisydd am gyfnod o 3 mis o leiaf.

(2) Ni chaniateir i'r gofyniad am enw a chyfeiriad canolwr sydd wedi cyflogi'r ceisydd am gyfnod o 3 mis o leiaf fod yn gymwys pan fo'n anymarferol cael geirda oddi wrth berson sy'n bodloni'r gofyniad hwnnw.

**7.** Enw, cyfeiriad, rhif ffôn, rhif ffacs (os oes un), a chyfeiriad post electronig (os oes un) y practis deintyddol preifat.

**8.** Os yw'r ceisydd yn ddeintydd neu'n broffesiynolyn gofal deintyddol—

(a) rhif cofrestru proffesiynol y person cyfrifol; a

(b) manylion unrhyw amodau a osodwyd ar gofrestriad proffesiynol y person cyfrifol neu wrth ei gynnwys ar restr perfformwyr deintyddol.

# RHAN 2

**Dogfennau**

**9.** Tystysgrif geni'r ceisydd.

**10.** Tystysgrifau neu dystiolaeth addas arall sy'n ymwneud â chymwysterau proffesiynol neu dechnegol y ceisydd, i'r graddau y mae'r cymwysterau hynny yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau i bersonau y mae gwasanaethau i gael eu darparu iddynt yn y practis deintyddol preifat.

**11.** Datganiad gan y ceisydd ynghylch cyflwr ei iechyd corfforol a meddyliol.

**12.** Tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 ac, fel y bo'n gymwys, wybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf (fel y diffinnir "suitability information relating to vulnerable adults" yn adran 113BB o'r Ddeddf honno) neu wybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (fel y diffinnir "suitability information relating to children" yn adran 113BA o'r Ddeddf honno) neu'r ddwy, a bod llai na thair blynedd wedi mynd heibio mewn cysylltiad â'r wybodaeth addasrwydd.